Polisi Absenoldeb Astudio GIG Cymru:

ar gyfer Meddygon Preswyl a Deintyddion dan Hyfforddiant

Cymeradwywyd ym mis Mehefin 2026
Grŵp Busnes Meddygol a Deintyddol

Cynnwys

1 | Cyflwyniad 2
2 | Diffiniadau a byrfoddau: 2
3 | Adolygiad o'r Polisi 2
4 | Cwmpas y Polisi 3
5 | Egwyddorion Absenoldeb Astudio 3
6 | Cymhwysedd 4
7 | Hawl 4
Amser 4
Amser i ffwrdd yn lle tâl 5
Arholiadau 6
Astudiaeth Beifat 6
Hyfforddiant Ar-lein 6
Cyflogaeth Arall â Thâl 6
Cymorth Ariannol 6
Trefniadau trosglwyddo cyllid 7
8 | Canllawiau Cais 8
9| Y Broses Gymeradwyo 8
10 | Ffioedd a Threuliau'r Cwrs 9
11| Rheoli Cyllideb Absenoldeb Astudio 10
12 | Gweithdrefn Apelio 10
ATODIAD 1 – Ffurflen Apêl Hysbysiad o Absenoldeb Astudio 12

1 | Cyflwyniad

Nod y polisi hwn yw sicrhau bod safonau *Promoting Excellence: Standards for Medical Education and Training (2015)* y Cyngor Meddygol Cyffredinol, neu gyfwerth, yn cael eu bodloni. Mae'r safonau hyn yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

> *R3.12 Rhaid i feddygon dan hyfforddiant allu cymryd absenoldeb astudio sy'n briodol i'w cwricwlwm neu raglen hyfforddi, hyd at yr amser mwyaf a ganiateir gan delerau ac amodau eu gwasanaeth.*

Mae'r polisi hwn wedi'i ategu gan y 'Cytundeb Disgwyliadau' rhwng Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Darparwyr Addysg Lleol ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant deintyddol a meddygol ôl-raddedig (gan gynnwys Ymarfer Cyffredinol).

2 | Diffiniadau a byrfoddau:

CODI – system ddigidol dan arweiniad AaGIC ar gyfer rheoli Meddygon Preswyl a Gweithwyr Proffesiynol Ôl-raddedig ar draws GIG Cymru.
CT – Preswylydd Craidd
DFT – Deintydd Preswyl Sylfaen
DCT – Deintydd Preswyl Craidd
FT – Preswylydd Sylfaen
GPST – Preswylydd Arbenigol Ymarfer Cyffredinol
AaGIC – Addysg a Gwella Iechyd Cymru
LEP – Darparwr Addysg Lleol (Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd) sy'n darparu addysg a hyfforddiant.
PCGC – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, y sefydliad cyflogi arweiniol yng Nghymru
Preswylydd - Ymarferwyr meddygol wedi cymhwyso'n llawn mewn hyfforddiant ôl-raddedig
RD&DIT – Meddygon Preswyl a Deintyddion dan Hyfforddiant
ST – Preswylydd Arbenigol

3 | Adolygiad o'r Polisi

Y nod yw i hwn fod yn bolisi pontio ym blwyddyn gyntaf y gwaith o ddiwygio Contractau Meddygon Preswyl i'w weithredu rhwng 1 Ebrill 2026 a 3 Awst 2027. Bydd yn cael ei adolygu yn Ebrill 2027 er mwyn cael ei weithredu yn Awst 2027, neu'n gynharach os byddai'n berthnasol.

Pan fydd y polisi'n cael ei adolygu, ceisir cyngor gan Ddarparwyr Addysg Lleol, cynrychiolwyr AaGIC, cynrychiolwyr PGCC, RD&DIT a'u cynrychiolwyr, gan gynnwys Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru.

4 | Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi'n berthnasol i feddygon a deintyddion sydd â hawl i Absenoldeb Astudio o fewn AaGIC, fel y'i diffinnir yn Adran 5: Cymhwysedd.

Nid yw presenoldeb yn y canlynol yn cyfrif yn erbyn y lwfans Absenoldeb Astudio blynyddol –

- Amser addysgu heb flîp o fewn y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth lle mae'r preswylydd
- Cyfarfodydd cynnydd gydag addysgwyr
- Rhaglenni Cwricwlwm Craidd/Dysgu Rhanbarthol/Lleol (ac eithrio'r rhaglen addysgol strwythuredig gan Feddygon Teulu ar gyfer y rhai ar leoliad gwaith Meddyg Teulu, gan gynnwys ymsefydlu)
- Amser Datblygu Addysgol
- Cyrsiau hyfforddi statudol (gan gynnwys unrhyw hyfforddiant adrannol lleol) sy'n ofynnol gan gyflogwyr/gwesteiwyr.
- Sesiynau ymsefydlu/hyfforddi arbenigol a hyfforddiant a ddarperir gan AaGIC sy'n ofynnol i'r arbenigedd.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau'r GIG, megis gwella ansawdd, archwilio, rheoli risg a gweithgareddau llywodraethu clinigol sy'n rhan annatod o gyflogaeth yn y GIG.
- Dylai cyfarfodydd ag Uned Cymorth Proffesiynol AaGIC gael eu trin yr un fath ag unrhyw apwyntiad iechyd arall (Iechyd Galwedigaethol, Meddyg Teulu ac ati) a dylid galluogi RD&DITs i fynd iddynt.
- Absenoldeb proffesiynol gan gynnwys cyfweliadau ar gyfer apwyntiadau'r GIG.

Mae Absenoldeb Astudio, fel y'i diffinnir yn y polisi hwn, yn cwmpasu'r amser a gymerir a'r gofynion ariannu ar gyfer ymgymryd ag Absenoldeb Astudio.

5 | Egwyddorion Absenoldeb Astudio

Prif ddibenion Absenoldeb Astudio fydd cyfleoedd datblygu addysgol a gynlluniwyd i ennill y cymwyseddau a ddiffinnir ym mhob cwricwlwm. Dylai Absenoldeb Astudio wneud y canlynol:

a. Gwella sgiliau clinigol, addysg a hyfforddiant.

b. Cael ei gynllunio cyn belled ymlaen llaw â phosibl i fod yn rhan annatod o'r broses addysg a hyfforddiant.

c. Darparu addysg a hyfforddiant sy'n anodd ei gael mewn lleoliadau clinigol arferol.

d. Cefnogi cyflawniad canlyniadau'r cwricwlwm.

e. Bod yn deg ar draws y Canolfannau Addysg Feddygol a Darparwyr Addysg Lleol eraill.

Ni ddylid cysylltu â RD&DITs tra byddant ar Absenoldeb Astudio cymeradwy.

6 | Cymhwysedd

Dyma'r RD&DIT sy'n gymwys i gael Absenoldeb Astudio (gan gynnwys RD&DITs Llai na Llawnamser):

- Meddygon Preswyl Sylfaen Feddygol
- Meddygon preswyl craidd (CT1, CT2, CT3 a CT4)
- Deintyddion Preswyl Craidd (DCT), Blwyddyn 2 ac uwch
- Cofrestryddion mewn Practis Cyffredinol o fewn ysbyty a phractis (GPST 1/2/3)
- Meddygon preswyl arbenigol (ST1 – ST8)
- Deintyddion preswyl arbenigol
- Swyddi Cymrawd Clinigol Academaidd / Darlithydd Clinigol Academaidd
- Apwyntiadau Hyfforddiant Arbenigol Cyfnod Penodol (FTSTA)
- Apwyntiadau Locwm ar gyfer Hyfforddiant (LAT)
- Preswylwyr Llwybr Academaidd Clinigol Cymru (WCAT)

Nid yw'r RD&DITs canlynol yn gymwys i gael Absenoldeb Astudio o dan delerau ac amodau'r polisi hwn:

- Deintyddion Preswylwyr Sylfaen (DF1) (bodoli fel diwrnodau astudio yn eu rhaglen hyfforddi)
- Deintyddion Preswyl Craidd (DCT), Blwyddyn 1 (bodoli fel diwrnodau astudio yn eu rhaglen hyfforddi)
- Apwyntiadau Locwm ar gyfer Gwasanaeth (LAS)
- RD&DITs ar brofiadau y tu allan i'r rhaglen (OOP)

Dylai RD&DITs a benodir i raglenni hyfforddi AaGIC ac sy'n cylchdroi i Fyrddau/Ymddiriedolaethau/Deoniaethau Iechyd y tu allan i AaGIC barhau i ddilyn y polisi absenoldeb astudio hwn.

7 | Hawl

Amser

Mae gan bob RD&DIT hawl flynyddol i gael amser a chyllid Absenoldeb Astudio.

Mae gan breswylwyr Blwyddyn 1 **Sylfaen Feddygol** hawl i 15 diwrnod o absenoldeb astudio ac mae gan breswylwyr Sylfaen Blwyddyn 2 hawl i 30 diwrnod. Mae rhagor o fanylion ynghylch sut y gellir defnyddio absenoldeb astudio i'w gweld yn y Canllaw Ysgol Sylfaen .

Mae gan RD&DITs **Craidd ac Arbenigol** a (Deintyddion Preswyl Craidd Blwyddyn 2 a 3 a Deintyddion Preswyl Arbenigol) hawl i 30 diwrnod o Absenoldeb Astudio y flwyddyn.

Atgoffir **GPST** sy'n gweithio swyddi Meddyg Teulu y bydd cyfran sylweddol o'u 30 diwrnod o absenoldeb astudio yn digwydd trwy gael eu rhyddhau am hanner diwrnod. Mae rhagor o fanylion ar gael yng nghanllawiau Absenoldeb Astudio Meddyg Teulu.

GP Residents Study Leave Guide - V1 Mar.

Hyblyg (rhan-amser) (a elwid gynt yn LTFT) – Bydd RD&DIT sy'n gweithio'n hyblyg (rhan-amser) yn cael amser Absenoldeb Astudio ar sail pro rata ond byddant yn cael y dyraniad cyllid blwyddyn lawn. Pan fo angen i RD&DIT hyblyg (rhan-amser) ymgymryd â chwrs hyfforddi penodol sy'n ofynnol gan y cwricwlwm, os yw'n fwy na'r hawl pro rata i astudio a/neu absenoldeb proffesiynol, bydd y gwesteiwr yn gwneud trefniadau i gymryd absenoldeb astudio ychwanegol, ar yr amod y gellir gwneud hyn heb amharu ar ddarpariaeth ddiogel y gwasanaethau.

Absenoldeb Rhiant – Mae gan RD&DIT sydd ar absenoldeb rhiant hawl i gymryd Absenoldeb Astudio, o fewn eu lwfans, yn ystod eu habsenoldeb rhiant, gellir cymryd hyn yn ystod diwrnodau 'cadw mewn cysylltiad', neu byddant yn cael eu cadw i'w cymryd yn ddiweddarach. Dewis personol yr RD&DIT fydd hyn, ac ni ddylid gofyn yn benodol iddynt gymryd Absenoldeb Astudio yn ystod eu habsenoldeb rhiant o dan unrhyw amgylchiadau.

Penodiadau Cyfnod Penodol – Mae gan RD&DIT mewn Penodiadau Hyfforddiant Arbenigol Cyfnod Penodol (FTSTA) a Phenodiadau Locwm ar gyfer Hyfforddiant (LAT) ac sydd wedi'u cyflogi am fwy na thri mis hawl i Absenoldeb Astudio ar sail pro rata.

Absenoldeb Salwch – Os bydd cyfnod o salwch yn cyd-fynd ag Absenoldeb Astudio a gymeradwywyd, dylai'r RD&DIT ymgynghori â Pholisi Salwch Cymru Gyfan y GIG a cheisio cyngor gan PCGC ac o fewn y Bartneriaeth Addysg Leol lle maent wedi'u lleoli.

Amser i ffwrdd yn lle tâl

Mae amser a gymerir ar gyfer absenoldeb Astudio yn cyfrif fel amser gwaith, felly dylid ei gymryd fel arfer ar ddiwrnodau gwaith wedi'u rhestru; mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar-lein y gall y RD&DIT ddewis pryd i'w gyflawni.

Fodd bynnag, os oes angen cwblhau hyfforddiant ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith (e.e. penwythnos neu ddiwrnod i ffwrdd ar y rhestr ddyletswyddau) yna dylid rhoi diwrnod i ffwrdd yn lle tâl.

Rhaid cynnwys amser i ffwrdd yn lle tâl yn y cais am Absenoldeb Astudio, a rhaid i'r RD&DIT gytuno pryd i gael diwrnod i ffwrdd yn lle tâl gyda'u Goruchwyliwr Addysgol a rheolwr gwasanaeth e.e. cydlynydd rota, personél meddygol, rheolwr ymarfer os mewn practis ac ati, ar adeg gwneud cais am yr Absenoldeb Astudio.

Dylid cymryd y diwrnod i ffwrdd o fewn cyfnod resymol o'r Absenoldeb Astudio. Gall hyn fod cyn neu ar ôl yr Absenoldeb Astudio.

Mae gan y Goruchwyliwr Addysgol a'r RD&DIT gyfrifoldeb i sicrhau nad yw'r RD&DIT yn torri'r gofynion cytundebol o ran oriau gwaith nac ychwaith ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd.

Rhaid cymryd y diwrnod i ffwrdd yn lle tâl cyn symud i Fwrdd Iechyd gwahanol gan na all y RD&DIT gario amser i ffwrdd yn lle tâl ymlaen i'w lleoliad gwaith nesaf.

Arholiadau

Caniateir i'r RD&DIT gael absenoldeb ar gyfer sefyll yr arholiadau sy'n angenrheidiol i'w datblygiad gyrfa yn eu harbenigedd dewisol.

Ni ellir ad-dalu ffioedd arholiad o'r dyraniad Absenoldeb Astudio.

Ni chaniateir i feddygon sylfaen feddygol dan hyfforddiant gymryd Absenoldeb Astudio i baratoi ar gyfer arholiadau arbenigol.

Astudiaeth Beifat

Caniateir absenoldeb ar gyfer astudiaeth breifat i bob RD&DIT uwchlaw gradd Sylfaen. Mae hyn fel arfer wedi'i gyfyngu i bum niwrnod o fewn y flwyddyn hyfforddi, ac eithrio astudiaeth breifat ar gyfer arholiadau lle caniateir pum niwrnod i bob arholiad (o fewn y terfyn cyffredinol o 30 diwrnod o absenoldeb astudio yn flynyddol).

Ni thelir unrhyw dreuliau am astudio preifat hyd yn oed os caniateir yr absenoldeb.

Hyfforddiant Ar-lein

Gellir cael mynediad at hyfforddiant ar-lein naill ai fel cyrsiau annibynnol neu i gyflwyno'r agweddau damcaniaethol wrth baratoi ar gyfer cwrs ymarferol.

Wrth ofyn am Absenoldeb Astudio i gwblhau hyfforddiant ar-lein, dylai RD&DIT roi tystiolaeth o hyd dangosol y cwrs fel rhan o'u cais am Absenoldeb Astudio, ynghyd â thystiolaeth o gost y cwrs.

Wrth gyflwyno hawliadau am ad-daliadau treuliau ar ôl cwblhau hyfforddiant ar-lein, dylid cynnwys cadarnhad o'r amser gwirioneddol a dreuliwyd yn cwblhau'r cwrs.

Yn achos hyfforddiant ar-lein i'w gwblhau ar unrhyw adeg, cynghorir RD&DIT i drefnu diwrnod gwaith i gwblhau'r hyfforddiant ac i ofyn am yr amser Absenoldeb Astudio priodol.

Gellir hawlio absenoldeb astudio ar gyfer amser sy'n angenrheidiol ar gyfer darllen neu e-ddysgu gorfodol sy'n rhan o'r cwrs, ac ni ddylid ei ystyried yn astudiaeth breifat.

Cyflogaeth Arall â Thâl

Ni chaniateir unrhyw gyflogaeth arall â thâl na gwaith â thâl yn ystod unrhyw gyfnod o Absenoldeb Astudio: byddai torri'r rheol hon yn arwain at ddisgyblu.

Cymorth Ariannol

Mae faint o gyllideb Absenoldeb Astudio sydd ar gael fel a ganlyn:

Nid oes gan breswylwyr Sylfaen Blwyddyn 1 fynediad at gyllideb absenoldeb astudio.

Commented [SK1]: Can this be reviewed, particularly for F2 doctors undertaking exams such as the MSRA?

Commented [CE2R1]: I don't agree - this is a test of foundation knowledge and situational judgement

Commented [AS3R1]: MSRA in our opinion is part of a selection process not speciality examination. We can discuss other examinations

Commented [KW4]: BMA suggested rewording - Reviewed with HB and have suggested the following instead as we cannot support individuals taking study leave for examinations outside of their current training programme

Commented [HB5]: Added following feedback that residents undertake exams in other areas whilst training.

Commented [SK6R5]: We ask that this is removed - doctors may wish to undertake exams when switching specialties or wanting to enhance development, and this could act as a barrier

Commented [CE7R5]: I agree with Helen - the criteria for selection into specialties no longer scores points for having extra examinations

Commented [HB8R5]: To add private study could by used for other exams within the 5 day limit but we need to ensure that individuals are using their study leave time for their current training.

Bydd preswylwyr academaidd F1 yn parhau i gael mynediad at £250 a bydd preswylwyr Blwyddyn Sylfaen 2 yn parhau i gael mynediad at y £480. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gadarnhad wedi'i roi i ddangos y byddai'r gwerthoedd hyn yn destun codiadau blynyddol, a byddai'n rhaid trafod hynny mewn partneriaeth â Grŵp Busnes Meddygol a Deintyddol .

Ar gyfer RD&DIT eraill sydd mewn rhaglen o 1 Ebrill 2026 i Awst 2026, bydd swm uwch yn cael ei ychwanegu at y gyllideb sydd ar gael hyd at uchafswm o £233.33 (bydd y ffigur hwn yn cael ei gyfrifo'n gyfrannol lle bo'n berthnasol, fel yr amlinellir yn y polisi hwn).

O fis Awst 2026 ymlaen, bydd cyllideb absenoldeb astudio uwch o £1,000 ar gael y flwyddyn, a bydd y ffigur hwn yn cael ei gyfrifo'n gyfrannol lle bo'n berthnasol fel yr amlinellir yn y polisi hwn. Bydd codiadau rheolaidd yn cael eu rhoi yn gysylltiedig â mesurau chwyddiant sydd heb eu cytuno eto.

Bydd hawl cyllid Absenoldeb Astudio RD&DIT yn cael ei agregu ar draws cyfnod 'blwyddyn hyfforddi' o ddeuddeg mis a'i gyfrifo yn seiliedig ar ddyddiad cychwyn cylchdro RD&DIT (Awst fel arfer, ond bydd yn amrywio yn dibynnu ar y rhaglen).

Ni all RD&DIT ddefnyddio eu cyllideb Absenoldeb Astudio i hawlio ffioedd arholiadau, cofrestriad proffesiynol, ffioedd Portffolio, llyfrau na chyfarpar.

Bydd pob RD&DIT yn gymwys i ddefnyddio eu cyllid Absenoldeb Astudio ar unrhyw adeg yn ystod blwyddyn hyfforddi ddiffiniedig yr unigolyn waeth pa Ddarparwr Addysg Lleol y maen nhw ynddo. Fodd bynnag, dim ond y cymeradwywr dynodedig ar gyfer y swydd y bydd yr Absenoldeb Astudio yn cael ei wneud ynddi all gymeradwyo ceisiadau am amser Absenoldeb Astudio.

Rhaid nodi unrhyw derfynau penodol ar ddyraniad ariannol cyllideb Absenoldeb Astudio, er enghraifft y swm a dynnir o'r gyllideb i ddarparu diwrnodau hyfforddi arbenigol Cymru Gyfan, yng nghanllawiau astudio Ysgol AaGIC sy'n gyfrifol am raglen hyfforddi.

Profiad y tu allan i'r rhaglen - Ni fydd absenoldeb astudio i breswylwyr tra byddant y tu allan i'r rhaglen (OOP) yn cael ei gefnogi'n ariannol yn unol â pholisi OOP AaGIC . Bydd y dyraniad absenoldeb astudio cyn yr OOP yn parhau i gael ei drosglwyddo yn ystod y cyfnod hwn.

Trefniadau trosglwyddo cyllid

Yn dilyn cytundeb, fel rhan o ddiwygio contract Preswylwyr 2026, bydd trefniant trosglwyddo unrhyw gyllideb absenoldeb astudio personol nas defnyddiwyd i'r flwyddyn hyfforddi ddilynol yn digwydd yn flynyddol yn unol â hyd y rhaglen hyfforddi.

Dim ond i gyllid absenoldeb astudio y mae'r trefniant trosglwyddo hwn yn berthnasol.

Bydd y dyraniad absenoldeb astudio yn cael ei ddiweddaru yn unol â blwyddyn hyfforddi flynyddol y preswylwyr (fel arfer Awst ond bydd hyn yn wahanol yn achos unigolion sy'n dechrau'r rhaglen ym mis Chwefror neu ar adegau eraill o'r flwyddyn).

Dim ond i RD&DIT sy'n aros yn yr un rhaglen hyfforddi yng Nghymru y mae'r trefniant trosglwyddo hwn yn berthnasol.

Gellir gweld lwfansau Absenoldeb Astudio Personol ar blatfform CODI. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, neu os ystyrir ei bod yn anghywir, dylai'r RD&DIT gysylltu â'u Rheolwr Addysg Feddygol lleol yn y lle cyntaf.

8 | Canllawiau Cais

Rhaid cyflwyno pob cais am Absenoldeb Astudio drwy gronfa ddata CODI.

Darperir hyfforddiant ar gyfer defnyddio CODI ar lefel Darparwr Addysg Lleol.

Rhaid cyflwyno pob cais am Absenoldeb Astudio (gan gynnwys ceisiadau am amser Absenoldeb Astudio yn unig a pha un a yw cwrs y mae'r RD&DIT yn dymuno ei gwblhau yn un wyneb yn wyneb neu ar-lein) drwy CODI o leiaf chwe wythnos cyn bod angen yr absenoldeb.

Rhaid cyflwyno ceisiadau 'cyllid yn unig' ar gyfer Absenoldeb Astudio drwy CODI. Er mwyn osgoi dryswch i gymeradwywyr ac i osgoi oedi posibl, dylai pob RD&DIT nodi '0' yn y maes 'nifer y dyddiau' yn CODI a chynnwys eglurhad byr yn y maes 'sylwadau'.

Ni fydd ceisiadau ôl-weithredol na cheisiadau hwyr yn cael eu hystyried oni bai mewn amgylchiadau eithafol, ac os na fydd yn peryglu gofal i gleifion gellir caniatáu'r absenoldeb.

Mae'r penderfyniad i gymeradwyo, sy'n cynnwys hyd a lled y gefnogaeth ariannol, yn nwylo'r Goruchwyliwr Addysgol a'r Rheolwr Addysg Feddygol (neu'r cymeradwywr absenoldeb dynodedig) (neu AaGIC ar gyfer cofrestryddion mewn practis teulu mewn swyddi practis).

Rhaid i bob cais am Absenoldeb Astudio gael ei gymeradwyo gan y cymeradwywyr absenoldeb dynodedig o fewn un mis calendr i gyflwyno'r cais am Absenoldeb Astudio CODI.

(Gall AaGIC ofyn am adroddiadau misol yn manylu ar hawliadau Absenoldeb Astudio heb eu cymryd y tu allan i'r amserlen dderbyniol er mwyn monitro cydymffurfiaeth.)

Gellir cyflwyno hawliadau am ad-daliad treuliau cwrs ar yr adeg y codir y gost. Rhaid gwneud pob hawliad am dreuliau Absenoldeb Astudio cymeradwy o fewn tri mis i ddyddiad y digwyddodd yr Absenoldeb Astudio.
Os rhoddir ad-daliad ymlaen llaw am absenoldeb astudio, ond bod yr unigolyn yn methu â'i gwblhau wedi hynny, mae'n ddyletswydd ar RD&DIT hysbysu'r tîm Addysg Feddygol lleol a fydd yn rheoli pob achos yn unigol.

9| Y Broses Gymeradwyo

Rhaid cytuno ar Absenoldeb Astudio ymlaen llaw rhag tarfu ar wasanaethau, a rhaid iddo gael ei gefnogi a'i gymeradwyo gan Oruchwyliwr Addysgol neu Glinigol y RD&DIT. Mewn rhai achosion gellir cyfeirio hyn at Gyfarwyddwr y Rhaglen Hyfforddi/Sylfaen i gael cyngor ac arweiniad.

Mae awdurdodi Absenoldeb Astudio yn seiliedig ar fodloni'r pum maen prawf canlynol:

1. **Argaeledd** : gellir rhyddhau'r RD&DIT o'u lle gwaith arferol ar adeg yr Absenoldeb Astudio y gofynnwyd amdano.

2. **Perthnasedd** : rhaid i Absenoldeb Astudio cymeradwy fod yn berthnasol i anghenion addysgol yr RD&DIT, yn briodol i'w profiad ac yn gefnogol i'r rhaglen hyfforddi y mae'r RD&DIT yn ei chynnal.

3. **Cymhwysedd** : bod gan yr RD&DIT ddigon o amser Absenoldeb Astudio ar ôl i gwmpasu hyd y gweithgaredd gofynnol.

4. **Cyllid** : bod gan yr RD&DIT ddigon o lwfans cyllido personol heb ei ddyrannu, o fewn y terfynau diffiniedig, i dalu costau'r gweithgaredd (neu fod yr RD&DIT wedi cytuno i hunan-ariannu ac wedi nodi hyn ar y ffurflen gais).

5. **Cytundeb Dysgu**: bod cytundeb dysgu cymeradwy neu ystyriaeth gyfwerth o anghenion dysgu RD&DIT wedi'i ddarparu i'r Goruchwyliwr Addysgol neu Glinigol perthnasol a'i ystyried gydag ef.

10 | Ffioedd a Threuliau'r Cwrs

Mae angen i RD&DIT wybod y gall cost cyrsiau amrywio'n sylweddol ac na fydd pob cwrs y byddan nhw'n awyddus i'w gwblhau yn cael ei ystyried yn angenrheidiol, nac yn opsiwn ymarferol o fewn cyfyngiadau ariannu.

Yn unol â rheoliadau ariannol AaGIC a'r Darparwr Addysg Lleol, bydd y costau canlynol a ysgwyddir ar gyfer Absenoldeb Astudio yn cael eu hystyried i'w talu:

- Ffioedd cofrestru neu gwrs cymeradwy.

- Treuliau teithio a chynhaliaeth os nad oes cyrsiau addas ar gael yn lleol; yn benodol, prisiau trên neu fws dosbarth safonol a phrisiau hedfan economi mewnol (DU).

- Treuliau milltiroedd ar gyfer ceir, teithwyr a beiciau pedal, yn daladwy yn unol â pholisi'r Darparwr Addysg Lleol/PCGC ar gyfer hawliadau hyd at 1 Awst 2026 ac wedi hynny gan ddefnyddio cyfraddau fel y nodir yn Llawlyfr Telerau ac Amodau'r GIG (Adrannau 17 a 18).

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y rhoddir cyllid ar gyfer Absenoldeb Astudio ar gyfer cyrsiau neu gynadleddau tramor, yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ar hawliadau treuliau.

11| Rheoli Cyllideb Absenoldeb Astudio

Rheolwyr Addysg Feddygol fydd yn rhoi trosolwg o'r gyllideb Absenoldeb Astudio ar gyfer meddygon preswyl, ac AaGIC ar gyfer Hyfforddai Meddyg Teulu Arbenigol mewn swyddi practis a phreswylwyr Llwybr Academaidd Clinigol Cymru.

Ar gyfer Deintyddion preswyl (DCT2, DCT3 a StRs Deintyddol) bydd cyllideb yr Absenoldeb Astudio yn cael ei rheoli gan y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth sy'n cyflogi yn hytrach na'r Rheolwr Addysg Feddygol.

Rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am reoli cyllideb Absenoldeb Astudio sicrhau bod penderfyniadau Absenoldeb Astudio unigol yn cael eu cofnodi drwy CODI. Ar gyfer rheoli ansawdd, dylent weithio gyda'r tîm CODI yn AaGIC i adrodd ar nifer y ceisiadau a gymeradwywyd/heb eu cymeradwyo, rhesymau dros beidio â'u cymeradwyo, y gyllideb a wariwyd, a gymerwyd Absenoldeb Astudio cymeradwy mewn gwirionedd a rhesymau dros beidio â chymryd Absenoldeb Astudio cymeradwy.

Rhaid i'r Ganolfan Addysg Feddygol gofnodi treuliau gwirioneddol a hawlir am Absenoldeb Astudio ar gronfa ddata CODI, (staff AaGIC ar gyfer cofrestryddion mewn practis cyffredinol a chymeradwywr absenoldeb ar gyfer Deintyddol). Dylid sicrhau bod manylion treuliau Absenoldeb Astudio ar gael i AaGIC ar gais yn unol ag atebolrwydd ariannol.

12 | Gweithdrefn Apelio

Mae gan RD&DIT sy'n ystyried bod ei gais am Absenoldeb Astudio wedi'i wrthod yn afresymol yr hawl i apelio.

Dylai'r RD&DIT hysbysu eu Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddi/Sylfaen am unrhyw amser gais am gyllid neu Absenoldeb Astudio a wrthodwyd, ynghyd â'r rheswm dros y gwrthodiad.

Rhaid i'r RD&DIT a Chyfarwyddwr y Rhaglen Hyfforddi a'r ES geisio datrys y problemau ar y cyd yn gyntaf ar lefel leol. Os na ellir datrys y mater yna gall yr RD&DIT uwchgyfeirio'r pryder i AaGIC.

Dylai RD&DIT gyflwyno ei apêl gan ddefnyddio'r ffurflen 'Hysbysiad o Apêl Absenoldeb Astudio' (Atodiad 1) gan nodi'r rheswm neu'r rhesymau dros apelio yn glir a chynnwys unrhyw dystiolaeth a allai gefnogi'r broses apelio. Cyfrifoldeb yr RD&DIT yw sicrhau bod y ffurflen yn cael ei chwblhau a'i chyflwyno i heiw.appeals@wales.nhs.uk o fewn 10 diwrnod gwaith o gael gwybod am y penderfyniad i wrthod Absenoldeb Astudio.

Bydd Panel Apêl annibynnol yn adolygu'r holl ddogfennaeth a gyflwynir o fewn 15 diwrnod gwaith i hysbysiad o apêl.

Bydd trefniant Panel Apêl yn cael ei gyfarwyddo gan AaGIC.

Bydd y Panel Apêl yn cynnwys dau o'r aelodau canlynol:

i. Pennaeth yr Ysgol/Cynrychiolydd AaGIC

ii. Y Rheolwr Addysg Feddygol dynodedig lleol o'r Darparwr Addysg Lleol lle tarddodd yr apêl.

iii. Uwch Reolwr o fewn AaGIC nad yw'n gyfrifol am oruchwylio'r rhaglen hyfforddi

Gall y Panel Apêl gyfarfod drwy gydweithio rhithwir yn hytrach na chyfarfod wyneb yn wyneb.

Bydd y Panel Apêl yn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ar y ffurflen ac nid oes gofyn i'r apelydd fod yn bresennol.

Bydd penderfyniad y panel a'r rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig i'r RD&DIT o fewn pum niwrnod gwaith i benderfyniad y Panel Apêl. Mae penderfyniad y panel yn derfynol.

ATODIAD 1 – Ffurflen Apêl Hysbysiad o Absenoldeb Astudio

HYSBYSIAD O APÊL ABSENOLDEB ASTUDIO

Cwblhewch bob adran o'r ffurflen.

Enw:
Gradd:
Arbenigedd:
Enwau Rheolwr Addysg Feddygol neu gymeradwywr Absenoldeb ar gyfer Deintyddiaeth:
Rwyf wedi hysbysu'r uchod o fy mhenderfyniad i apelio yn erbyn y penderfyniad: **YDW/NAC YDW** *Dilëwch fel y bo'n briodol*
Manylion yr Apêl:
Teitl y Cwrs:
Dyddiadau Absenoldeb Astudio:
Dyddiad Cais am Absenoldeb Ar-lein:
Nifer y Dyddiau:
A Oes Angen am Gyllid Absenoldeb Astudio: **OES/NAC OES** Os Oes, nodwch y swm:
Cyllid a Gytunwyd:
Manylion budd addysgol Absenoldeb Astudio:
Rhesymau dros Apêl:
Llofnod: Dyddiad:

Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i AaGIC